## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU
## SIR DDINBYCH 2022

## Rhif 127 – Grŵp Llefaru Bl 6 ac iau (Adran)

## AR DRYWYDD ANTUR

Hei, chi, dewch am dro
dilynwch ni trwy dwll y clo.

Na, nid chi y bobol fawr,
y bobol fach sy'n cael antur nawr.

Dewch gyda ni i dreulio awr
mewn byd rhyfeddol rhwng dau glawr.

Brysiwch mewn i'r arall fyd
lle gall hi fod yn haf o hyd.

Ble mae y môr â'i ben i lawr!
Ble gwelwch ysbryd, blaidd neu gawr,

mwnci piws, neu ddewin cas.
Trwy dwll y clo mae'r byd ar ras!

Ar dudalennau gwyn a du
mae cymeriadau lliwgar lu!

Bydd rhai yn ifanc, rhai yn hen,
arwyr cyfrwys, arwyr clên.

Sleifiwch mewn trwy dwll y clo
i'r arall fyd sy'n llwyr o'i go.

Dewch am antur drwy y tir,
yn gapten llong neu roced hir.

Dringwch mewn i stori dda,
cau y drws a dweud ta-ta

wrth ffôn ac ap a sŵn y byd:
mewn llyfr mae'r stori'n fyw o hyd.

**CASIA WILIAM**